Dyddiad cyhoeddi: 10 Mai 2017

Cyfrifo'r dangosydd salwch

Rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch neges e-bost dyddiedig 20 Ebrill 2017 lle y gwnaethoch ofyn am y cyfrifiad a ddefnyddiwyd gennym i bennu'r targed ar gyfer y dangosydd perfformiad absenoldeb oherwydd salwch yn ein Cynllun Blynyddol 2017/18. Yn arbennig, gwnaethoch ofyn am **'ddadansoddiad manwl o'r mesur o ran diffiniad a'r safon a ddefnyddir gennych i bennu'r rhifiadur, yr enwadur a'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r canlyniad'.**

Mae'r cyfrifiad canlynol yn bodloni eich cais:

$$\frac{\text{Total days lost to sickness (in period)}}{\text{Average FTE (in period)}}$$

Mae 'cyfanswm y diwrnodau a gafodd eu colli oherwydd salwch' yn cyfeirio at yr amser a gofnodwyd fel absenoldeb oherwydd salwch ar iTrent. Dim ond cyflogeion a gaiff eu cynnwys ar y system hon - ni chaiff contractwyr, staff achlysurol, aelodau'r bwrdd na staff asiantaeth eu cynnwys. Ni chaiff apwyntiadau meddygol, absenoldeb anabledd, cyfnodau dychwelyd i'r gwaith yn raddol/cyfnodau adsefydlu na phenwythnosau eu cynnwys. Os bydd aelod o staff yn mynd yn sâl yn ystod cyfnod o wyliau blynyddol, caiff ei gofnodi fel absenoldeb oherwydd salwch yn hytrach na gwyliau blynyddol.

Mae 'CALl' yn cyfeirio at gymedr nifer yr unigolion cyfwerth ag amser llawn mewn swydd fesul diwrnod. Ni chaiff contractwyr, staff achlysurol, aelodau'r bwrdd na gweithwyr asiantaeth eu cynnwys wrth gyfrifo'r cymedr.

Dylwn nodi hefyd, er ein bod wedi mabwysiadu'r diffiniadau hyn a'r fformiwla hon fel rhai sy'n briodol ar gyfer ein dangosyddion perfformiad, wrth ddarparu'r wybodaeth hon nid ydym yn eu harddel fel arfer da i gyrff cyhoeddus yn gyffredinol.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, ond os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am fy ymateb, anfonwch e-bost ataf.

Yn gywir,